Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Yr alwad olaf ar gyfer Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*

Anogir pobl i gyflwyno eu henwebiadau ar gyfer cynllun gwobrau Cymru gyfan os ydynt yn credu y dylai mudiad gwirfoddol y maen nhw'n ei edmygu gael cydnabyddiaeth.

Cyflwynwyd categori newydd ar gyfer Gwobrau *Rhwydwaith Cymru* 2010, sef grwpiau sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol a lles, gyda'r nod o dynnu sylw at y gwaith mae'r trydydd sector wedi'i wneud yn y maes hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau am y gwobrau hyn, a gefnogir gan Class Telecommunications ac a reolir gan WCVA, yw dydd Iau 21 Hydref.

Meddai Constance Adams, Uwch Swyddog Polisi WCVA: `Pleser o'r mwyaf i WCVA yw cael cyflwyno categori newydd yn arbennig ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a lles, o gofio'r rôl enfawr mae'r sector yn ei chwarae yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.'

Dyma'r categorïau:

- Gwobr Class ar gyfer y cyfathrebu gorau
- Y Wobr werdd
- Iechyd, gofal cymdeithasol a lles
- Y mudiad a edmygir fwyaf

Mae ffurflenni enwebu ar gael yn www.wcva.org.uk. Y dyddiad cau yw 21 Hydref 2010.

Dweud eich dweud am ddyfodol Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio ar ffyrdd o wella'r modd y mae pobl sy'n defnyddio'i gwefan yn cael gafael ar wybodaeth am weithgarwch ymgynghori.

Mae gwybodaeth am ymgynghoriadau cyfredol yn gliriach, a gwahoddir pobl i gysylltu a√ Chynulliad Cymru i roi eu barn am bob ymgynghoriad.

Bydd pob eitem yn cynnwys disgrifiad manwl o'r hyn sydd wedi'i gynnig, ynghyd a√ chyfeiriad e-bost a chyfeiriad post er mwyn i'r rheini sydd a√ diddordeb allu anfon eu sylwadau'n uniongyrchol at Lywodraeth y Cynulliad.

Gall defnyddwyr ymateb i ymgynghoriadau hefyd a chynnig eu barn, a dangosir sawl diwrnod sydd ar ôl nes bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i greu fforwm ar-lein sy'n cael ei safoni a fydd yn rhoi cyfle i bobl drafod pob ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi lansio e-gylchlythyr a anfonir at ei danysgrifwyr, ac ynddo ceir crynodeb o bob ymgynghoriad a dolen i bob un.

I weld yr adran wybodaeth am ymgynghoriadau ar ei newydd wedd, ewch i http://wales.gov.uk/consultations/?skip=1&lang=cy, ac i danysgrifio er mwyn cael y cylchlythyr, ewch i http://wales.gov.uk/consultations/consultnewsletter?skip=1&lang=cy.

Cyhoeddi rhaglen seminarau Cyfranogaeth Cymru

Mae Cyfranogaeth Cymru wedi cyhoeddi manylion o'n rhaglen seminarau ar gyfer yr hydref.

Mae'r rhaglen yn cynnwys *Cyfryngau i gynllunio prosiect llwyddiannus i gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau*, sydd yn cyflwyno awgrymiadau a chyfryngau ymarferol ar gyfer cynllunio a rheoli eich prosiect i gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, a *Rhwydweithiau cynhyrchiol: sefydlu neu adfywio rhwydwaith*, sydd yn cynnwys syniadau, awgrymiadau a dulliau ymarferol i sefydlu rhwydwaith llwyddiannus neu i ailwampio rhwydwaith sy'n bodoli eisoes.

Bydd y seminarau ymarferol a chyfranogol yma yn galluogi cyfranogwyr i gwrdd aˆ chyfranogwyr eraill o ledled Cymru ac i rannu profiadau, dysgu a chefnogi ei gilydd. Gwahoddir cyfranogwyr i ddod â phrosiect maen nhw'n gweithio arno gyda nhw, neu syniadau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, er mwyn iddynt roi beth maen nhw wedi dysgu ar waith.

Mae llefydd yn £50 ar gyfer aelodau o WCVA a £65 i fudiadau sydd ddim yn aelodau. Gweler www.participationcymru.org.uk/training/seminars

---

Cyhoeddi dyddiad cynhadledd ymddiriedolwyr

Ydych chi'n ymddiriedolwr elusen, neu'n aelod o staff sy'n gweithio gyda byrddau ymddiriedolwyr? Gallai cynhadledd Ymddiriedolwyr WCVA 2010, a gefnogir gan gwmni cyfreithiol Geldards, chwarae rhan ganolog wrth gynllunio dyfodol eich grwp.

Bydd y gynhadledd Ymddiriedolwyr eleni, a gynhelir yn yr Holiday Inn, Caerdydd, ar 11 Tachwedd 2010, yn cynnig dewis eang o destunau diddordeb i ymddiriedolwyr. Bydd Prif Weithredwr WCVA, Graham Benfield, yn cychwyn y dydd gyda chrynodeb o'r prif faterion o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, ac yn ddiweddarach, bydd Rhian Brace, o gwmni Geldards, yn rhoi cyngor i'r gynulleidfa ynghylch goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 i'r trydydd sector.

Gallwch ddisgwyl dewis amrywiol o weithdai hefyd. Bydd Sara Burgess o Dy'r Cwmnïau yn cyflwyno buddion y model Cwmni Budd Cymunedol i'r cyfranogwyr, bydd Gisele Davies o gwmni Geldards yn edrych ar y prawf newydd Person Cymwys a Phriodol, a bydd Maggie Bradley o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn siarad am *Reoli gwirfoddolwyr - materion i ymddiriedolwyr eu hystyried*.

Bydd nifer o sesiynau llawn a gweithdai eraill yn cael eu cynnal hefyd, ac mae'r gynhadledd Ymddiriedolwyr yn gyfle gwych i rwydweithio a chyfnewid syniadau.
Er mwyn archebu lle, ffoniwch Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, anfonwch e-bost i eventsadmin@wcva.org.uk neu ewch i www.wcva.org.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.